# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2020**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2020 Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HYDREF 2020**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**
**Branwen**

**A1.** Pwy ysgrifennodd y pantomeim? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

1 marc am nodi:

Huw Garmon

Adalw gwybodaeth

**A2.** Ydy'r poster hwn yn eich perswadio chi i fynd i weld y pantomeim? Nodwch **un** rheswm i gefnogi eich ateb. [1]

1 marc am nodi ydy neu nac ydy a chynnig rheswm sy'n argyhoeddi.

Dadansoddi

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Beth yw chwedl?**

**A3.** Nodwch **ddau** beth mae pobl wedi eu gwneud i newid y chwedlau dros amser. [2]

1 marc yr un (hyd at 2 farc)

- Pobl yn ychwanegu manylion gwahanol (wrth adrodd y chwedlau ar lafar)
- Newid digwyddiadau i wneud y stori'n fwy diddorol neu'n fwy credadwy

Adalw gwybodaeth

**A4.** Tanlinellwch y dywediad sy'n golygu mai cael eu dweud yr oedd y chwedlau yn hytrach na'u hysgrifennu. [1]

1 marc am danlinellu:

> Ydych chi erioed wedi clywed am y gair 'chwedl'? Yr hen Rufeiniaid ddefnyddiodd y gair am y tro cyntaf a'i ystyr oedd 'pethau i'w darllen'. Er hynny, nid pethau i'w darllen oedd chwedlau Cymru o'r cychwyn. Roedden nhw'n cael eu **hadrodd ar lafar**. Wrth i wahanol bobl adrodd y chwedlau, roedd y storïau'n cael eu newid bob tro wrth i bob un ychwanegu pethau gwahanol at y stori.

Ystyr ymadrodd

**A5.** Nodwch a yw'r datganiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir trwy roi ✓ (cywir) neu x (anghywir) yn y golofn ar y dde. Mae un wedi ei wneud i chi'n barod. [2]

1 marc am bob dau ateb cywir hyd at ddau farc.

| | ✓ neu x |
|---|---|
| Y Groegiaid a ddefnyddiodd y gair 'chwedl' yn gyntaf. | x |
| Pethau i'w hadrodd yw ystyr y gair 'chwedl'. | x |
| Roedd y storïau'n newid o hyd wrth i'r adroddwr ychwanegu atynt. | ✓ |
| Mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod cymeriadau o chwedlau yn bobl go iawn. | x |
| Mae'r gair Saesneg am chwedl wedi datblygu i gael ei ddefnyddio i ddisgrifio pobl enwog â sgiliau arbennig. | ✓ |

Adalw gwybodaeth a dehongli

**A6.** Pa **un** o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio beth yw chwedl? [1]

Un marc am nodi:

Cyfuniad o wirionedd a dychymyg ✓

Dehongli

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Chwedl Onomastig**

**A7.** Pam gwnaeth Bendigeidfran adael saith marchog ar ôl? [1]

Un marc am nodi:

i edrych ar ôl ei wlad ✓

Adalw gwybodaeth

**Darn Darllen 4**
**Mabinogi-ogi**

**A8.** At ba fath o gynulleidfa y mae'r darn hwn wedi ei anelu? Nodwch **un** rheswm i esbonio eich ateb. [1]

Un marc am nodi ateb sy'n synhwyrol e.e. pobl ifanc/pobl sy'n edrych ar S4C.

Bwriad awdur

**A9.** Ystyriwch eich ateb i gwestiwn A8. Esboniwch eich ateb trwy drafod **un** ffordd mae'r awdur yn ceisio apelio at ei gynulleidfa. [2]

Un marc am **enwi** ffordd/dull/nodwedd a ddefnyddir i apelio.

Un marc am **drafod** arwyddocâd/effaith y nodwedd.

Gwerthuso

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Detholiad modern o chwedl 'Branwen'**

**A10.** Sut mae'r awdur yn creu tensiwn yn y darn darllen? [5]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc**
Ateb syml yn cyfeirio, o bosib, at un dull o greu tensiwn gyda thystiolaeth.

**2 farc**
Cyflwyno 2-3 dull o greu tensiwn gyda thystiolaeth.

**3 marc**
Enwi 3+ dull o greu tensiwn gan ddyfynnu/enghreifftio a **dechrau dadansoddi** effaith.

**4 marc**
Enwi 3+ dull o greu tensiwn gan ddyfynnu/enghreifftio a **dadansoddi'n dda**.

**5 marc**
Enwi 3+ dull o greu tensiwn gan ddyfynnu/enghreifftio a **dadansoddi'n hyderus** a deallus.

Gellir cyfeirio at rai o'r dulliau a ganlyn (gellir derbyn enghreifftiau gwahanol/pellach ac unrhyw nodweddion/dulliau eraill sy'n argyhoeddi):

| **Dull/nodwedd/techneg/ffordd** | **Enghraifft** |
|---|---|
| Ansoddeiriau | arswydus |
| Berfau trydydd person | rhedodd/rhuthrodd |
| Berfau gorchmynnol | Gwrandewch |
| Ataliaith/elipsau/tawnodau | …yn symud |
| Ebychnod/ailadrodd/prif lythrennau | Ia, SYMUD, syr! |
| Idiomau | dan grynu/dychryn am fy mywyd/am ei waed |
| Ebychiad | Branwen! |
| Cymhariaeth | mor wyn ag eira/suddodd… fel plwm |
| Brawddeg fer | Llyncodd Matholwch ei boer./Byddai am ei waed. |

Dadansoddi

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 6**
**Deiseb yn galw am 'Bont Bendigeidfran 'dros y Fenai'.**

**A11.** Esboniwch pam mae cynllun yn cynnwys cerflun o Bendigeidfran yn addas ar gyfer y bont ar draws afon Menai. [2]

Un marc am adalw ac un marc am esbonio/rhesymu/dehongli.
Bendigeidfran yn bont i gario'i filwyr dros yr afon (yn Iwerddon)/chwedl Gymraeg ac mae'r bont yng Nghymru/un o arwyr Cymru

Rhesymu/dehongli

**Darnau Darllen 4, 5 a 6**
**Mabinogi-ogi,**
**Detholiad modern o chwedl 'Branwen'**
**Deiseb yn galw am 'Bont Bendigeidfran' dros y Fenai**

**A12.** **Cyfunwch** wybodaeth o'r tri darn darllen er mwyn dangos yr hyn rydych chi'n ei wybod am:

- Branwen
- effaith/defnydd o chwedl Branwen heddiw [6]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1-2 farc**
Gallu cyfuno gwybodaeth sylfaenol o fwy nag un darn darllen.

**3marc**
Cyfuno gwybodaeth eithaf manwl o fwy nag un darn darllen.

**4 marc**
Cyfuno gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth sy'n gynyddol heriol, yn fanwl gan **ddechrau dehongli.**

**5 marc**
Ateb manwl sy'n cyfuno gwybodaeth sydd weithiau'n heriol, o fwy nag un darn darllen. Bydd **elfen o ddehongli yn amlwg** yn yr ateb.

**6 marc**
Dethol gwybodaeth berthnasol sy'n aml yn heriol, yn ddeheuig **gan ddehongli'n aeddfed** a chyfuno'n effeithiol.

Gellir cyfeirio at y canlynol, er enghraifft:

Cyfuno/dehongli

© WJEC CBAC Cyf.

| | Mabinogi-ogi | Deiseb | Detholiad |
|---|---|---|---|
| **Branwen** (gwobrwyo ffeithiau am Branwen yn unig e.e. 'Efnisien yn frawd iddi' yn iawn ond methu gwobrwyo 'Efnisien yn ymosod ar y ceffylau') | • Branwen Ferch Llŷr<br>• Chwaer Bendigeidfran<br>• Matholwch eisiau ei phriodi<br>• Hanner brawd – Efnisien<br>• Priodi a hwylio i Iwerddon<br>• Mab - Gwern<br>• Gwyddelod yn dial arni/carcharu<br>• Un ffrind - drudwen<br>• Dysgu i siarad/gyrru llythyr<br>• Ei brawd am ei hachub<br>• Cyfeiriad at y llun | • Ail gainc y Mabinogi<br>• Achub Branwen<br>• Dod â hi'n ôl i Gymru | • Branwen yn gwybod mai ei brawd oedd yn dod i'w hachub<br>• Branwen wedi ei charcharu gan Fatholwch (nodi yn y cyflwyniad)<br>• Bendigeidfran yn mynd i achub Branwen |
| **Y chwedl heddiw** | • Criw *Stwnsh* yn cyflwyno'r chwedl<br>• Ar y teledu/ 5.35/dydd Mawrth<br>• Mwy o wybodaeth ar y wefan<br>• Gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol | • Cynllun y drydedd bont - Bendigeidfran<br>• 'Pont Bendigeidfran'<br>• Llun o'r cynllun Bendigeidfran yn cynnal pobl heddiw fel yn y chwedl | • Fersiwn cyfoes o'r chwedl a gofnodwyd gyntaf yn y 14G – wedi cael ei moderneiddio |
| **Enghreifftiau o ddehongli** | • Defnyddio hwyl, chwerthin, cân a rapio yn apelio at gynulleidfa newydd/ifanc<br>• Moderneiddio'r chwedl<br>• Defnyddio cyfryngau cymdeithasol/teledu/ cylchgrawn i ehangu apêl neu adfywio'r stori | • Wedi ysbrydoli cynllun ar gyfer y drydedd bont dros y Fenai<br>• Cynllun "mwy priodol" yn awgrymu addasrwydd chwedl Gymraeg<br>• 200 yn cefnogi'r ddeiseb – y chwedl yn dal i apelio | • Matholwch yn dibynnu ar Branwen i esbonio'r dirgelwch – eironig ar ôl ei charcharu<br>• Moderneiddio'n dangos bod y chwedl dal yn boblogaidd a pherthnasol/dal yn cael ei dweud |
| **Dehongli sy'n cyfuno'r tri darn** | • Y chwedl yn ysbrydoli pobl heddiw<br>• Dal yn berthnasol heddiw<br>• Dywediad o'r chwedl yn ysbrydoli cynllun y drydedd bont dros y Fenai – A fo ben bid bont/Y pennaeth fydd yn bont i'w bobl (darnau 5 a 6)<br>• Defnydd cyfoes amrywiol yn cael ei wneud o'r chwedl | | |

**A13. Golygu** **[5]**

(a) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Er mwyn gwneud argraff dda mewn cyfweliad, dylech gyrraedd yn ____________.

Un marc am nodi:
brydlon ✓

(b) Dyma ran o lythyr cais am swydd. Mae **dau** beth sydd angen eu newid er mwyn gwneud yn siŵr fod y llythyr yn ddigon ffurfiol. Llenwch y tabl gan nodi'r camgymeriad yn y golofn gyntaf ac yna'r cywiriad yn yr ail golofn. [2]

Annwyl Syr,

Dw i'n ysgrifennu atat ti i wneud cais am y swydd a welais yn cael ei hysbysebu.

Un marc yr un hyd at ddau am nodi'r gwall a'r cywiriad cywir:

| Beth sydd angen ei newid? | Cywiriad |
|---|---|
| Dw i | Rydw i/Rwyf/Rwy'n |
| atat ti | atoch chi |

(c) Dewiswch **ddau** air o'r rhestr a'u gosod yn y bylchau priodol. Gallwch dreiglo'r geiriau os oes angen. [2]

**gwledydd** **gwledig** **gwladol**

Un marc yr un hyd at ddau am nodi:

(a) Rwy'n mwynhau ymweld â **gwledydd** tramor a gweld golygfeydd anhygoel.

(b) Mae'n llawer gwell gen i fyw mewn ardal **wledig (derbyn gwledig)** nac mewn tref gan fy mod yn hoffi tawelwch.

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

**B1.** Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith.

(a) Mae angen rhedeg yr arddodiaid hyn yn gywir. Llenwch yr ail golofn gyda'r atebion. Mae un wedi ei wneud i chi'n barod.

Un marc am bob dau ateb cywir hydat 3. [3]

| | |
|---|---|
| siarad am ef | siarad amdano ef |
| eistedd ar hi | eistedd arni hi |
| mynd at chi | mynd atoch chi |
| neidio dros hi | neidio drosti hi |
| dweud wrth hi | dweud wrthi hi |
| anrheg gan nhw | anrheg ganddyn nhw |
| disgwyl i nhw | disgwyl iddyn nhw |

(b) Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

Un marc am nodi:

eu tŷ nhw ✓

(c) Mae **un** gwall yn y frawddeg isod. Yn y golofn gyntaf, nodwch y gwall ac yna cywirwch ef yn yr ail golofn. [1]

Mae'r plant yn mynd ar daith heddiw ac mae'n nhw'n edrych ymlaen yn fawr.

Un marc am nodi'r gwall a'i gywiro'n gywir:

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| mae'n (nhw) | maen (nhw) |

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN***<br>***(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR***<br>***(IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN*** <br> ***(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR*** <br> ***(IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc** <br> • Peth ysgrifennu cydlynol <br> • Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd <br> • Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd <br> • Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol <br> • Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc** <br> • Defnyddio peth ystod o eirfa <br> • Gafael anghyson ar ramadeg <br> • Amrywio brawddegau rywfaint <br> • Peth gafael ar gystrawen <br> • Peth gafael ar ystod o atalnodi <br> • Sillafu yn eithaf cywir <br> • Treigladau yn eithaf cywir <br> • Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc** <br> • Ysgrifennu cydlynol elfennol <br> • Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd <br> • Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa <br> • Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson <br> • Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc** <br> • Ystod gyfyngedig o eirfa <br> • Gafael gyfyngedig ar ramadeg <br> • Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau <br> • Gafael gyfyngedig ar gystrawen <br> • Peth ymdrech i atalnodi <br> • Sillafu rhai geiriau yn gywir <br> • Gafael gyfyngedig ar dreigladau <br> • Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.